

**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL BRO MORGANNWG A
CHAERDYDD
12 RHAGFYR 2012**

Yn bresennol:

Y Cyngh. Bronwen Brooks - CBM
Y Cyngh. Lynda Thorne – CDC
Mike Friel – CDC
Michelle Brewer – CDC
Pam Toms – CBM
Frances Beecher – Cymorth
Robert Waldron – CBM (Archwilio)
Richard Dooner (CLILC)
Mike Ingram – CBM
Kevin Parsons – CBM (Cofnodion)

Mark Sheridan – TCC
Peter Greenhill – Profiannaeth
Simon Prothero – LIC
Nathan Cook - LIC
Sian Griffiths –lechyd Cyhoeddus
Helen Jones (Gofal Hafod)

Ymddiheuriadau:

Miles Punter – CBM
Ceri Meloy – Cymorth
Jeff Gooch - Cymorth
Siân Harrop-Griffiths – BIPCaF
Mike Murphy - CDC

	Gweithredu
<p>Cyflwyno ac Ymddiheuriadau Croesawodd y Cyngh. Bronwen Brooks (Cadeirydd) bawb i ail gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bro Morgannwg a Chaerdydd.</p> <p>Aeth pawb ati i'w gyflwyno eu hunain a'r sefydliad yr oedd yn ei gynrychioli, a nodwyd unrhyw ymddiheuriadau.</p>	
<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cytunwyd â chofnodion cyfarfod 7 Tachwedd ar ôl gwneud y cywiriadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ Bydd grant rhaglen Cefnogi Pobl Cyngor Caerdydd 4% yn llai yn ystod 2013 a 5% yn llai bob blwyddyn wedyn am y tair blynedd nesaf. 	

<ul style="list-style-type: none"> ❖ Cywirwch sillafiad yr enw Richard Dooner CLILC) ❖ Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n cadarnhau y bydd y fformiwla aiddosbarthu'n cael ei adolygu yn ystod 2014/15, ond y mae'r mater yn destun dadlau ar hyn o bryd. 	
<p>Ffurflenni Gwrthdaro Buddiannau Atgoffodd y Cyngh. Brooks aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o'r angen am ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod o'r pwyllgor, a bod ffurflenni safonol ar gael i'w llenwi.</p> <p>Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.</p>	PAWB
<p>Eitemau Safonol yr Agenda</p> <p>Achredu Dosbarthodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau drafft ar 6 Rhagfyr er mwyn cael ymgynghori yn eu cylch, gan hynny, nid oes unrhyw oblygiadau achredu i sôn amdanynt.</p> <p>Sefyllfa Ariannol gyda golwg ar y Gyllideb. Dosbarthwyd copïau o'r cynlluniau gwario lleol a rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2012 - 31 Mawrth 2013, a Chynllun Gwario Lleol Bro Morgannwg ar gyfer 2012/13, er gwybodaeth.</p> <p>Mapio Anghenion Rhanbarthol. Er bod gwybodaeth leol ar gael ar gyfer mapio anghenion, ni chafodd y wybodaeth ranbarthol gyfatebol ei chrynhoi a'i dadansoddi hyd yn hyn. Y Cyd-drefnydd Datblygu Rhanbarthol a fydd yn gwneud y gwaith hwnnw cyn gynted ag y bydd y swydd honno wedi'i llenwi.</p> <p>Canlyniadau a Rheoli Perfformiad (gan gynnwys adolygu gwasanaethau). Mae darparwyr wedi anfon mesurau canlyniadau am y chwe mis cyntaf i'r ddau awdurdod lleol, ac y mae'r ddau awdurdod wrthi o hyd yn cwblhau eu harolygon ar gynlluniau. Caiff adroddiadau eu cyflwyno i gyfarfodydd nesaf y pwyllgor cydweithredol.</p> <p>Cynigion ar gyfer Adlunio Strategol. Dim.</p> <p>Ail-dendro Contractau Anabledd Dysgu. Nid oedd yn bosibl i Mike Murphy o Gyngor Caerdydd ddod i'r cyfarfod hwn. Caiff ei gyflwyniad ei gynnwys yng nghyfarfod Ionawr 2013 o'r pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Aelod o Gabinet</p>	MB

Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn, sef y Cyngh. Luke Holland yn cael ei wahodd i'r cyfarfod hwnnw.

Comisiynu a Chaffael.

Gwahoddwyd Richard Dooner (RD) (CLILC) i'r cyfarfod er mwyn trafod cyfrifoldebau awdurdodau lleol o safbwynt eu rheoliadau ariannol a'u rheolau sefydlog ar gyfer comisiynu a chaffael, am eu bod yn gwrthdaro mewn mannau â'r Canllawiau Cefnogi Pobl.

Eglurodd RD fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u rheoliadau ariannol eu hunain (sy'n amrywio o awdurdod i awdurdod) yn ogystal â rhai'r Undeb Ewropeaidd, ac y dylid cael cyngor oddi wrth swyddogion cyfreithiol lleol. Mae angen trefn weithredu gadarn nad yw'n rhy llafurus er mwyn diogelu cynghorwyr a swyddogion.

Dywedodd Frances Beecher (FB) i rai cefnogwyr fynegi pryder am fod ambell i awdurdod lleol yn defnyddio comisiynu a chaffael fel ffordd o dorri ar nawdd.

Eglurodd RD ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol 'ffeindio eu ffordd eu hunain i'r farchnad' a phenderfynu p'un ai prynu gwasanaethau, eu darparu'n fewnol ynteu cyfuno'r dulliau hyn a fyddai orau yn y pendraw. Yr awdurdod lleol hefyd sy'n gyfrifol am benderfynu sut y bydd ei berthynas broffesiynol â darparwyr gwasanaethau'n datblygu. Er bod y berthynas yn un fasnachol, dylid ymdrechu i beidio â bod yn rhy haearnaidd. Mae angen ystyried y gystadleuaeth a meddwl am sefydliadau eraill, ond dylid gwneud hynny heb dynnu'n groes i'r darparwyr.

Eglurodd Mark Sheridan (MS) fod TCC wedi helpu i lunio canllawiau Cefnogi Pobl, a'i fod yn hyderus y byddai'r canllawiau o gymorth i gynhyrchu ar y cyd. Serch hynny, yr oedd yn derbyn ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'u rheoliadau eu hunain.

Pwysleisiodd Simon Protheroe (SP) mai sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer defnyddwyr oedd bwriad a chanolbwynt Llywodraeth Cymru wrth lunio'r canllawiau, ond deallodd fod gan awdurdodau lleol reoliadau ariannol amrywiol. Cadarnhaodd fod y drefn gaffael yn gweithio'n dda ar y cyfan ym mhob rhan o Gymru, a bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bawb ddilyn Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru (sy'n cael ei diweddarau ar hyn o bryd). Roedd hefyd am weld cynnal ymarfer caffael ar sail angen strategol. Trafodwyd y posibilrwydd o gomisiynu a chaffael ar y cyd ar draws y rhanbarth yn y dyfodol, a chadarnhawyd bod

<p>rheoliadau ariannol Cyngor Bro Morgannwg yn caniatáu cydymffurfio â phroses gomisiynu Cyngor Caerdydd, petai'n arwain yr ymarfer hwnnw. Serch hynny, ni fyddai rheoliadau ariannol Cyngor Caerdydd yn caniatáu cydymffurfio â phroses awdurdod lleol arall petai'n cymryd yr awenau.</p> <p>Ar gais FB, cytunodd pawb a oedd yn bresennol mai 'gwaith sy'n mynd rhagddo' oedd hwn, y dylai Comisiynu a Chaffael fod yn eitem ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol fel mater o arfer ac y dylai'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wahodd Swyddogion Caffael awdurdodau lleol i gyfarfodydd yn ôl y gofyn. .</p> <p>Hybu Cydweithrediad Defnyddwyr – trafodaeth ar y cynnig y dylai grant TPAS fod ar gael i hybu cydweithrediad tenantiaid</p> <p>Dosbarthwyd manylion am y cynnig er mwyn i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol eu hystyried.</p> <p>Roedd pum rhanbarth arall y Pwyllgor Cydweithredol yng Nghymru eisoes wedi cefnogi'r cynnig. Ei nod yw meithrin gallu a sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddigon o wybodaeth a hyder i gymryd rhan yn y broses sy'n rhoi llais iddynt. Os bydd y cynnig yn llwyddiannus, bydd TPAS hefyd yn ein helpu i lunio Fframwaith Cydweithrediad Defnyddwyr Gwasanaethau.</p> <p>Mynegodd FB bryder ynglŷn â'r ffordd o drefnu i wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gyfranogi, am iddi deimlo y dylai grwpiau gael eu trin yn unigol, a bod angen egluro'r sefyllfa'n well .</p> <p>Roedd MS yn rhannu'r pryderon hyn ac yn awyddus i drafod y mater ymhellach â TPAS.</p> <p>Bu rhagor o drafod, ac oherwydd dyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r cynnig, penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth i TPAS. Serch hynny, er bod y Pwyllgor yn cytuno i gydweithio â TPAS er mwyn sicrhau cydweithrediad defnyddwyr, dylid pwysleisio ei fod yn mynnu dyfeisio ei broses ei hun a pherffeithio Strategaeth neu Fframwaith Cydweithrediad Defnyddwyr Gwasanaethau sy'n ateb gofynion y rhanbarth orau .</p>	<p>PT</p> <p>PT</p>
<p>Toriadau Cyllidebol Arfaethedig 2013/2014 – Cyngor Caerdydd.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad cynrychiolwyr Cymorth a Chartrefi Cymunedol Cymru ar y Pwyllgor Cydweithredol â'u haelodau,</p>	

gyrwyd cais drwy lythyr ar ran y sefydliadau hynny i Gyngor Caerdydd am wybodaeth ynglŷn â'r toriad cyllidebol o 4% sydd i'w weithredu ym mhob gwasanaeth yn ystod 2013/14.

Dyweddodd FB fod llawer o ddarparwyr yn synnu na fedrai Cyngor Caerdydd gymryd agwedd fwy strategol tuag at doriadau cyllidebol wrth ystyried yr holl arolygon strategol ar wasanaethau yr oedd wedi'u cynnal. Eto i gyd, yr oedd yn well o lawer gan rai darparwyr weld toriad o 4% na gweld gwasanaethau'n cau.

Cadarnhaodd Mike Friel (MF) er bod yr arolygon wedi'u cynnal, nad oedd digon o amser ar gyfer ymgynghori â darparwyr a defnyddwyr am fod yr amserlen mor dyn. Roedd yn ein sicrhau y byddai camau mwy strategol yn cael eu cymryd yn ystod 2014/15.

Bu rhagor o drafod ar y ffaith na chafodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bro Morgannwg a Chaerdydd ei ffurfio yn gynt ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol. Cydnabuwyd hefyd fod llai o gyfathrebu â darparwyr oherwydd yr oedi hwn ac am fod y broses ranbarthol yn aneglur.

Roedd MF wedi sicrhau pawb nad diffyg cyfeiriad strategol oedd y broblem ar ôl sefydlu'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ond yn hytrach, proses aneglur.

Dyweddodd MS fod aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru ar y cyfan yn derbyn mai dyma'r unig ffordd bosibl o wneud toriadau ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Soniodd MF am y gwaith y mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu ei wneud yn ystod 2013/14 a 2014/15. Yn ogystal ag adolygu llawer o wasanaethau, bydd yn rhaid ystyried eu hadlunio hefyd. Roedd yn sicrhau pawb yn y cyfarfod y byddai'n rhoi gwybod am unrhyw newidiadau sydd gan y cyngor mewn golwg ac y byddent yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Cynhaliwyd pleidlais ac yr oedd cynllun Cyngor Caerdydd i dorri cyllideb pob darparwr o 4% yn ystod 2013/14 wedi'i gymeradwyo gan holl aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Unrhyw Faterion Eraill

Daeth neges e-bost oddi wrth Chris Rutson, Cadeirydd ffrwd Llywodraethu a Gwaith Rheoleiddio'n gofyn a fo'r Pwyllgor yn fodlon ar gynrychiolaeth bresennol landlordiaid, ynteu a fyddai'n

ystyried gwahodd cynrychiolwyr landlordiaid ar ran yr awdurdod lleol (a bwrw bod gan yr awdurdod stoc dai o hyd) a'r sector rhentu preifat hefyd.

Cydnabuwyd y dylai landlordiaid gael eu cynrychioli'n briodol ar y Pwyllgor, ond efallai ei bod yn rhy gynnar ymestyn yr aelodaeth ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd fod swyddogaeth landlordiaid yr awdurdod lleol eisoes yn cael ei chynrychioli ar y Pwyllgor Cydweithredol gan y Prif Swyddogion am eu bod yn cynrychioli Gwasanaethau Tai.

Penderfynwyd:

- ❖ mynd â phapur trafod ynglŷn â chyfraniad landlordiaid preifat i'r Pwyllgor Cydweithredol ym mis Chwefror.
- ❖ cysylltu â Chris Ruston er mwyn cael gwybod sut yr oedd aelodau eraill ar y Pwyllgor yn ymdrin â hyn.

Rhoddodd SP y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol i'r rhai a ddaeth i'r cyfarfod:

- ❖ Bwriedir cyhoeddi papur am drais yn y cartref - sef 'Atal Trais yn erbyn Menywod' – a fydd yn cael effaith ar ddigartrefedd.
- ❖ Bydd Deddf Tai newydd y llywodraeth yn cael effaith ar raglen 'Cefnogi Pobl'.
- ❖ Gallai'r Mesur Nawdd Cymdeithasol newydd effeithio ar dai â chymorth drwy atal digartrefedd.
- ❖ Caiff y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl Hŷn eu cyhoeddi cyn bo hir.
- ❖ Bydd Nathan Cook yn ymadael â Thîm Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru am iddo gael dyrchafiad, a chaiff aelod newydd o staff ei recriwtio yn y dyfodol agos.
- ❖ Bu Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn cwrdd ar 10 Rhagfyr, ac yr oedd ei aelodau'n awyddus i ddod i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Cydweithredol ac am i aelodau'r Pwyllgor ddod i'w cyfarfodydd hwythau. Cadarnhaodd y rhai a oedd yn bresennol y byddent yn gwahodd y Bwrdd i un o'u cyfarfodydd yn y dyfodol pe ystyrier bod angen gwneud hynny, a chât'r Bwrdd eu gwahodd yn eu hôl.

MB

FB

<p>❖ Mae'r Bwrdd wedi gofyn am ddiwygio'r Drefn Adolygu a Monitro arfaethedig, sy'n golygu na chaiff ei chyhoeddi'n brydlon.</p> <p>Mynegodd MF bryder am yr oedi yma, am fod y drefn achredu eisoes yn destun ymgynghoriad, ac y dylai fod cyfle i awdurdodau lleol ystyried y ddwy ddogfen ar yr un pryd, er mwyn iddynt gael deall y goblygiadau cyn ymateb.</p> <p>Gofynnodd y Cyngh. Lynda Thorne (LT) am sicrhau bod y Pwyllgor Cydweithredol yn cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw eitemau sydd i'w trafod gan Lywodraeth Cymru, er mwyn iddynt gael eu rhoi ar yr agenda.</p> <p>Cytunwyd mai'r dull cenedlaethol newydd o ymdrin â throseddwyr ifainc a fyddai un o'r eitemau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ym mis Chwefror, ac y byddai FB yn cyflwyno'r eitem.</p> <p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mercher 2 Ionawr 2013 am 3pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri.</p>	<p>FB</p>
---	-----------